Report of the Directors for 2018/2019

__Ecodyfi__ is a bilingual locally-controlled organisation. We have been fostering and supporting a greener economy and community since 1998.

Between April 2018 and March 2019 we worked across mid Wales as well as locally, including:

Welsh Government Energy Service
On contract to the Energy Saving Trust, we supported groups in Ceredigion, Pembrokeshire, Meirionnydd and Montgomeryshire that are developing community-owned renewable energy schemes. For example, Cwm Arian Renewable Energy developed their project to erect an 800kW wind turbine near Hermon. Since January 2019, this service has been integrated with Carbon Trust's support to the public sector, covering investments in energy efficiency as well as generation.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer 2018/2019

Mae __Ecodyfi__ yn sefydliad dwyieithog a reolir yn lleol. Rydym wedi bod yn maethu ac yn cefnogi economi a chymuned wyrddach er 1998.

Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019 buom yn gweithio ar draws canolbarth Cymru yn ogystal ag yn lleol, gan gynnwys:

Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru
Dan gontract i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, buom yn cefnogi grwpiau yng Ngheredigion, Sir Benfro, Meirionnydd a Sir Drefaldwyn sy'n datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy a berchenogir gan y gymuned. Er enghraifft, datblygodd Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian eu prosiect i godi tyrbin gwynt 800kW ger Hermon. Ers mis Ionawr 2019, mae'r gwasanaeth hwn wedi'i integreiddio gyda chefnogaeth yr Ymddiriedolaeth Garbon i'r sector cyhoeddus, gan gynnwys buddsoddiadau mewn effeithlonrwydd ynni yn ogystal â chynhyrchu ynni.

Cwm Arian volunteers and workers - Gwirfoddolwyr a gweithwyr Cwm Arian

Renew Wales, funded by the Big Lottery Fund
Through Development Trusts Wales, we supported community groups in Mid Wales wanting to do something practical about climate change. For example, we provided an energy audit and report for Cemmaes Jubilee Hall, who

Adfywio Cymru, a ariennir gan Gronfa'r Loteri Fawr
Drwy Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, buom yn cefnogi grwpiau cymunedol yng nghanolbarth Cymru oedd am wneud rhywbeth ymarferol ynglŷn â newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, buom yn darparu archwiliad ynni ac

used it to obtain grant aid to install thermal curtains from the **Dyfi Community Energy Fund** that we administer. This uses income from Bro Dyfi Community Renewables' two wind turbines above Pantperthog to grant-aid community activities that reduce carbon emissions and educate people.

Windfall
We provided the Secretariat for the Mid Wales Community Energy Trust, which channels donations from commercial wind energy developers to community energy projects.

Repair Café and Repair and Share Fairs
Alongside Machynlleth Community Bike Workshop, we organised four Repair Cafes and two 'Cymhorthfa' Repair and Share Fairs. People visiting get things mended by volunteers, usually learning something in the process. The events reduce waste and build skills, confidence and community. Added elements in the Cymhorthfa include plants, surplus food, Refugee Action, films and demonstrations.

BBC Countryfile filming the Repair Café

Edward Jones at the Repair & Share Fair

Sustainable Communities Wales
This is a programme of free support and advice available to communities across Wales, to help improve the energy efficiency of the community buildings they run. SCW is funded by the Welsh Government's Rural Development Programme and is delivered by a consortium of non-profit energy efficiency experts led by Severn Wye Energy Agency. An example is Corris Institute, which received and energy and water audit with recommendations for improvements.

adroddiad i Neuadd Jiwbilî Cemaes a ddefnyddiwyd i gael cymorth grant i osod llenni thermol drwy **Gronfa Ynni Cymunedol Dyfi** a weinyddir gennym. Mae hon yn defnyddio incwm o ddau dyrbin gwynt Ynni Adnewyddadwy Bro Ddyfi uwchben Pantperthog i roi cymorth grant i weithgareddau cymunedol sy'n lleihau allyriadau carbon ac yn addysgu pobl.

'Windfall'
Rydym yn darparu'r Ysgrifenyddiaeth i Ymddiriedolaeth Ynni Cymunedol Canolbarth Cymru sy'n sianelu rhoddion oddi wrth ddatblygwyr ynni gwynt masnachol i brosiectau ynni cymunedol.

Caffi Trwsio a Chymorthfeydd
Ochr yn ochr â Gweithdy Beiciau Cymunedol Machynlleth, buom yn trefnu pedwar Caffi Trwsio a dwy Gymhorthfa – ffeiriau trwsio a rhannu. Mae gwirfoddolwyr yno i drwsio pethau i'r rheini sy'n ymweld â'r caffi gan ddysgu rhywbeth iddynt wrth wneud fel arfer. Mae'r digwyddiadau'n lleihau gwastraff ac yn meithrin sgiliau, hyder a chymuned. Ymhlith yr elfennau ychwanegol yn y Cymhorthfa mae planhigion, bwyd dros ben, Gweithredu Ffoaduriaid, ffilmiau ac arddangosiadau.

BBC Countryfile yn ffilmio'r Caffi Atgyweirio

Edward Jones yn y Gymhorthfa (Ffair Trwsio a Rhannu)

Cymunedau Cynaliadwy Cymru
Dyma raglen o gymorth a chyngor di-dâl sydd ar gael i gymunedau ar draws Cymru i helpu i wella effeithlonrwydd ynni'r adeiladau cymunedol y maent yn eu cynnal. Ariennir Cymunedau Cynaliadwy Cymru gan Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru a'i gyflwyno gan gonsortiwm o arbenigwyr effeithlonrwydd ynni dielw dan arweiniad Asiantaeth Ynni Hafren Gwy. Un enghraifft yw Institiwt Corris a gafodd archwiliad ynni a dŵr gydag argymhellion ar gyfer gwelliannau.

Energy Local
Energy Local is a new way to enable local communities to work together to pool their locally owned generation and manage local demand to reduce bills and carbon emissions. Supported by Community Energy Wales, ecodyfi promoted the concept of people using clean and locally generated electricity and developed a cooperative for the Machynlleth area.

Climate Emergency
Ecodyfi played an important role in getting Machynlleth Town Council to declare a climate emergency, and in supporting the community planning that followed.

UNESCO Dyfi Biosphere
We continued to support the Partnership with a Secretariat service and helped several networks, especially the Tourism Association and the Nature Based Health Network. We are the contact and communication point, maintaining www.dyfibiosphere.wales and the facebook pages.

Information, advice and networking
Informally, we responded to requests for advice and helped people explore opportunities to improve the sustainability and vitality of the Dyfi Valley. Our website www.ecodyfi.wales includes a community information section for this purpose, as well as featuring our own projects and activities.

2018/19 was a satisfactory year financially, with the turnover of £52,000 being similar to the previous year, and with only one member of staff.

Since March 2019
We have continued all the activities described above and expanded significantly. Now we have four members of staff, including a part-time Administrator for the first time and two part-time project workers. Both these projects are branded as Dyfi Biosphere activities.

The key objective of the LEADER funded 'Mixed farming – histories and futures' project is to illustrate that, historically, mixed farming - the growing of crops as well as the raising of

Ynni Lleol
Ffordd newydd yw Ynni Lleol o alluogi cymunedau lleol i gydweithio i gronni'r ynni a gynhyrchir yn lleol a rheoli'r galw lleol i leihau biliau ac allyriadau carbon. Yn cael ei gefnogi gan Ynni Cymunedol Cymru, bu ecodyfi yn hyrwyddo'r syniad o bobl yn defnyddio trydan glân a gynhyrchir yn lleol gan ddatblygu menter gydweithredol i ardal Machynlleth.

Argyfwng Hinsawdd
Chwaraeodd ecodyfi rôl bwysig wrth sicrhau bod Cyngor Tref Machynlleth yn datgan Argyfwng Hinsawdd ac wrth gefnogi'r cynllunio cymunedol yn sgil hynny.

Biosffer UNESCO Dyfi
Rydym yn parhau i gefnogi'r Bartneriaeth gyda gwasanaeth ysgrifenyddiaeth a buom yn helpu sawl rhwydwaith, yn enwedig y Gymdeithas Dwristiaeth a'r Rhwydwaith Iechyd Seiliedig ar Natur. Ni yw'r man cyswllt a chyfathrebu gan gynnal www.biosfferdyfi.cymru a'r tudalennau Facebook.

Gwybodaeth, cyngor a rhwydweithio
Yn anffurfiol, buom yn ymateb i geisiadau am gyngor ac yn helpu pobl i edrych ar gyfleoedd i wella cynaliadwyedd a bywiogrwydd Dyffryn Dyfi. Mae ein gwefan www.ecodyfi.cymru yn cynnwys adran ar gyfer gwybodaeth gymunedol i'r diben yma, yn ogystal â rhoi sylw i'n prosiectau a'n gweithgareddau ein hunain.

Roedd 2018/19 yn flwyddyn foddhaol yn ariannol, gyda'r trosiant o £52,000 yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, a gyda dim ond un aelod o staff.

Ers mis Mawrth 2019
Rydym wedi parhau'r holl weithgareddau a ddisgrifir uchod ac wedi ehangu'n sylweddol. Bellach mae gynnon ni bedwar aelod o staff gan gynnwys Swyddog Gweinyddol rhan-amser am y tro cyntaf a dau weithiwr prosiect rhan-amser. Mae'r prosiectau hyn yn cael eu brandio fel gweithgareddau Biosffer Dyfi.

Prif amcan y prosiect a ariennir gan LEADER, 'Ffermio cymysg – hanesion a'r dyfodol', yw dangos sut, yn hanesyddol, y byddai ffermio cymysg – tyfu cnydau'n ogystal â magu da byw – yn fwy cyffredin o lawer yng Nghymru nag y

livestock – was much more common in Wales than it is now. The aim is to help make the case for supporting sustainable mixed agriculture and a more resilient local food production economy.

Through the Trywydd Iach project, ecodyfi and Coed Lleol (Small Woods Wales) have teamed up to help our community get active outdoors to improve health & wellbeing.

Using EU LEADER funding, we have facilitated the development of a new sub-brand of the Dyfi Biosphere for the hospitality industry and local producers, called Blas Dyfi Taste.

Having joined the Summit to Sea consortium late in the funding application process so as to ground it more locally, ecodyfi pulled out in August 2019 in recognition of the strong opposition the project had encountered. We are discussing with others how the project's aims might be amended and delivered through a new locally-rooted partnership, perhaps under the auspices of the Biosphere.

Following the 10-year review of the Biosphere the Board is considering evolving ecodyfi, so as to become the formal lead body for Biosphere activities.

Project/funding proposals are being developed for climate change and outdoor health.

mae erbyn hyn. Y nod yw helpu i bledio'r achos dros roi cymorth i amaethyddiaeth gymysg gynaliadwy ac economi cynhyrchu bwyd lleol sy'n wytnach.

Drwy'r prosiect Trywydd Iach, mae ecodyfi a Coed Lleol wedi dod ynghyd i helpu ein cymuned i fynd yn egnïol yn yr awyr agored a gwella eu hiechyd a lles.

Gan ddefnyddio cyllid LEADER yr UE, rydym wedi hwyluso datblygu is-frand newydd i Fiosffer Dyfi ar gyfer y diwydiant lletygarwch a chynhyrchwyr lleol o'r enw 'Blas Dyfi'.

Wedi ymuno â'r consortiwm O'r Mynydd i'r Môr yn hwyr yn y broses gwneud cais am gyllid, er mwyn ei wreiddio'n fwy lleol, tynnodd ecodyfi ohono ym mis Awst 2019 gan gydnabod y gwrthwynebiad cryf yn erbyn y prosiect. Rydym yn trafod ag eraill sut y gellir newid nodau'r prosiect a'u cyflwyno drwy bartneriaeth newydd sydd â'i gwreiddiau'n lleol, efallai o dan ofal y Biosffer.

Yn dilyn yr adolygiad 10 mlynedd o'r Biosffer, mae'r Bwrdd yn ystyried datblygu ecodyfi i ddod yn rhyw fath o gorff arweiniol ffurfiol i weithgareddau'r Biosffer.

Mae cynigion prosiectau/cyllido yn cael eu datblygu ar gyfer newid yn yr hinsawdd ac iechyd awyr agored.

Creating a climate change Steering Group February 2019 - Creu Grŵp Llywio newid hinsawdd – Chwefror2019

Ecodyfi is registered as a company limited by guarantee at Companies House, Cardiff. Its full name is Partneriaeth Eco Dyffryn Dyfi Eco Valley Partnership; company number 382 5561.
Mae ecodyfi wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yn Nhŷ'r Cwmnïau, Caerdydd. Ei enw llawn yw Partneriaeth Eco Dyffryn Dyfi Eco Valley Partnership; rhif cwmni 382 5561.
Y Plas, Machynlleth, SY20 8ER, 01654 703965
www.ecodyfi.wales www.ecodyfi.cymru info@ecodyfi.cymru